OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2016 Rhif 885 (Cy. 224)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A48 (Y Gerbytffordd tua'r Dwyrain o Gylchfan Pen-sarn, Caerfyrddin i Nant-y-caws, Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2016

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *6 Medi 2016* |
| *Yn dod i rym* | *12 Medi 2016* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Llundain – Abergwaun (yr A48) ("y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 12 Medi 2016 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A48 (Y Gerbytffordd tua'r Dwyrain o Gylchfan Pen-sarn, Caerfyrddin i Nant-y-caws, Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2016.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 12 Medi 2016 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" ("*the length of the trunk road*") yw'r darn o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd yn Sir Gaerfyrddin sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr ddwyreiniol Cylchfan Pen-sarn hyd at ei chyffordd â'r B4310 sy'n arwain at Nant-y-caws.